# Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

## Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Mae sicrhau bod yr Ysgol yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu addysg i'n disgyblion.
Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson, y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' drwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn a'r un yw eu hystyr.

Er mwyn sicrhau bod yr Ysgol yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn felly wedi cael ei greu er mwyn esbonio mor glir â phosibl beth rydym yn ei wneud â data personol.

### 1. At ba ddiben rydym yn defnyddio data personol?

Bydd y wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi a'ch plentyn yn cael ei defnyddio i:

- Gefnogi dysgu eich plentyn
- Monitro ac adrodd ynghylch eu cynnydd
- Darparu gofal bugeiliol priodol
- Asesu safon ein haddysg

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol yw er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Addysg 1944 i 2014.

Os nad ydych yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom pan fyddwn yn gofyn amdani, gallai hyn gael effaith ar addysg a diogelwch eich plentyn.

### 2. Pa fath o wybodaeth rydym yn ei defnyddio?

Rydym yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol:

- Eich manylion cyswllt chi a'ch plentyn
- Dyddiad geni eich plentyn
- Rhyw eich plentyn
- Rhif unigryw’r disgybl
- Rhif unigryw'r dysgwr
- Cyfansoddiad eich teulu
- Gallu ieithyddol y plentyn
- Manylion addysg
- Delweddau/ffotograffau yn rhan o'n gweithgareddau ysgol
- Gwybodaeth am iechyd eich plentyn

- Hil neu gefndir ethnig eich plentyn
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Data biometrig

Rydym hefyd yn defnyddio system Teledu Cylch Cyfyng yn yr ysgol i gofnodi delweddau. Mae hyn er mwyn cadw eich plentyn a'n gweithwyr yn ddiogel.

Lle bo hynny'n berthnasol, byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r canlynol:

- Cymhwysedd ar gyfer cael prydau ysgol am ddim
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- A yw disgybl neu blentyn yn Derbyn Gofal gan awdurdod lleol

## 3. A ydym yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill?

Mae'r Ysgol yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gennych ond rydym hefyd yn cael gwybodaeth gan y ffynonellau canlynol:

- Unrhyw ysgolion blaenorol y mae eich plentyn wedi eu mynychu
- Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin
- Awdurdodau lleol eraill
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ceir y mathau canlynol o ddata personol:

- Rhif unigryw’r disgybl
- Côd adnabod y disgybl
- Eich manylion cyswllt chi a'ch plentyn
- Cyfansoddiad eich teulu
- Gallu ieithyddol
- Manylion addysg
- Delweddau/ffotograffau
- Gwybodaeth am iechyd eich plentyn
- Hil neu gefndir ethnig eich plentyn
- Credoau crefyddol neu athronyddol mewn ysgolion ffydd

## 4. Trosglwyddo gwybodaeth dramor

Ni fydd data personol amdanoch chi a'ch plentyn yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## 5. Pwy sydd â mynediad i'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio?

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion â'r canlynol:

- Cyngor Sir Caerfyrddin

- Llywodraeth Cymru
- Ysgolion eraill
- Consortiwm Rhanbarthol Ein Rhanbarth ar Waith
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Ymddiriedolaeth Teulu Alps a Fischer sy'n dadansoddi data am ddisgyblion ar gyfer yr Ysgol
- Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgwyr
- Gyrfa Cymru
- Cyrff arholi

Gall Capita, sy'n darparu ein System Gwybodaeth Reoli, gael mynediad i ddata personol pan fyddant yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y system.

Mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'n disgyblion hefyd yn cael ei darparu gan Gyngor Sir Ceredigion ar System Gwybodaeth Reoli Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae rhai sefyllfaoedd penodol lle mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni ddatgelu gwybodaeth amdanoch, er enghraifft:

- Pan fo'r gyfraith yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi'r wybodaeth
- Pan fo angen datgelu'r wybodaeth i atal neu ddatrys trosedd
- Pan fo datgelu er budd pennaf y person dan sylw

## 6. Pa mor hir y byddwn yn cadw data personol?

Rydym yn cadw data personol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth:

www.irms.org.uk

## 7. Eich Hawliau Diogelu Data

Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i'r data personol y mae'r ysgol yn ei brosesu amdanoch
- Cywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn
- Tynnu eich caniatâd yn ôl o ran prosesu'r wybodaeth, os mai hwn yw'r unig sail i brosesu'r wybodaeth
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y corff annibynnol yn y Deyrnas Unedig sy'n diogelu hawliau gwybodaeth

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd gennych yr hawl i:

- Wrthwynebu bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu
- Dileu eich data personol
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Trosglwyddo data

Gallwch hefyd gyrchu cofnodion addysgol eich plentyn o dan Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011.

## 8. Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr hysbysiad preifatrwydd hwn a'ch hawliau, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data.

Cyfeiriad e-bost: dpoysgol@sirgar.gov.uk
Rhif ffôn: 01267 246 444

Gellir cael manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghyd â chyfarwyddyd pellach ynghylch y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

www.ico.org.uk